

ADRODDIAD I'R CABINET
19 CHWEFROR 2013

Aelod Cabinet: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

Pwnc: CYLLIDEB REFENIW 2012/13 – ADOLYGIAD 3^{ydd} CHWARTER

Swyddog cyswllt: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Adroddir ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (rhagolygon 2012/13 ar sail sefyllfa 31 Rhagfyr 2012) o'r Gyllideb Refeniw, a gofynnir i'r Cabinet ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, ac ystyried yr argymhellion gerbron, cyn penderfynu ar unrhyw gamau priodol i reoli ac addasu cyllidebau refeniw'r Cyngor a'i adrannau am y flwyddyn gyfredol.

Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Yn **Atodiad 1**, cyflwynir crynhoad gyda rhagolygon o sefyllfa derfynol cyllideb refeniw pob Adran am 2012/13 ar sail yr adolygiad trydydd chwarter.

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad ail chwarter i'r Cabinet ar 20 Tachwedd 2012. Roedd yr adolygiad ail chwarter yn drylwyr, a sylwer o Atodiad 1 nad oes newid sylweddol ar lefel adrannol rhwng y rhagolygon cyflwynwyd yn Nhachwedd a'r rhagolygon diweddaraf cyflwynir yn yr adroddiad gerbron heddiw.

Tra mae'r rhagolygon yn ymddangos yn weddol gyson ar lefel adrannol, mae sefyllfa ariannol rhai gweithgareddau a gwasanaethau o fewn adrannau wedi newid, e.e. y rhagolygon ar gyfer rhai elfennau o Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwella.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

Nodaf fod y cyllidebau roedd yn destun pryder, megis Gwastraff, Uned Ymgynghoriaeth a Parcio, eisoes yn derbyn sylw yn dilyn sawl adroddiad diweddar.

Camau nesaf ac amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno'r adroddiad 'alldro' dilynol i'r Cabinet ffurfiol 11 Mehefin 2013 yn adrodd ar sefyllfa derfynol 2012/13.

Barn yr aelod lleol

Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad. Fel y mae'r Pennaeth Cyllid yn adrodd, mae'r materion o bryder eisoes wedi derbyn sylw mewn adroddiadau diweddar.

Y Swyddog Monitro:

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau

Atodiad 1

Atodiad 2